CYPE(6)-05-21 - Papur i'w nodi 6

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

—

**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Dyddiad | Date 19 Hydref

Pwnc | Subject: Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Annwyl Paul,

Ysgrifennodd y Pwyllgor Busnes atom ar 5 Hydref yn gofyn am ein barn am yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ("y Bil"). Nodwyd ei bod yn debygol y bydd gan eich Pwyllgor ddiddordeb yn y Bil.

Byddwn yn croesawu eich barn ynghylch a fyddai'ch Pwyllgor am gymryd rhan yn y broses o graffu ar y Bil hwn, ac ym mha ffordd. Hefyd, hoffwn wahodd eich Pwyllgor i'r sesiwn friffio dechnegol a roddir i ni gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 4 Tachwedd. Er nad yw union amser y sesiwn friffio wedi cael ei gadarnhau eto, caiff ei gynnal yn y bore. Byddai'n dda gwybod cyn gynted â phosibl a fyddai unrhyw Aelodau am ddod i'r sesiwn friffio hon, ac os felly, faint.

Byddwn yn hapus i gwrdd â chi i drafod y mater ymhellach.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.